**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 24 Ebrill 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | E W Fitzgerald |
| L S Gibbard | J A Hale | D W Helliwell |
| P K Jones | E T Kirchner | W G Lewis |
| W G Thomas | | |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams | J W Jones |
| C A Holley | L R Jones | |

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd R C Stewart — Yr Arweinydd/Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): G J Tanner

---

## 124 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr J W Jones ac M H Jones gysylltiad personol â Chofnod 128 "Craffu cyn Penderfynu: Rheol 19.1c y Weithdrefn Ariannol a Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol. Awdurdodiad i Newid ac Addasu Stiwdios y Bae, Fabian Way, Abertawe yn Ysbyty Cynnydd Sydyn â 1000 o Welyau ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe" gan fod eu merch yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Datganodd y Cynghorydd J Hale gysylltiad personol â Chofnod 128, "Craffu cyn Penderfynu: Rheol 19.1c y Weithdrefn Ariannol a Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol. Awdurdodiad i Newid ac Addasu Stiwdios y Bae, Fabian Way, Abertawe yn Ysbyty Cynnydd Sydyn â 1000 o Welyau ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe" fel gweithiwr i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

**125 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**126 Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**127 Eitem Frys.**

Amlinellodd Arweinydd y Cyngor y rheswm dros y mater brys, yn unol â pharagraff 100B (4) (b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, sef ei bod yn meddwl y dylid ystyried yr adroddiad "Rheol 19.1c a Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Awdurdodiad i Newid ac Addasu Stiwdios y Bae, Fabian Way, Abertawe yn Ysbyty Cynnydd Sydyn â 1000 o Welyau ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe" yn y cyfarfod hwn fel mater o frys.

Y rheswm dros y mater brys yw bod angen adeiladu ysbyty ar frys yn sgîl Covid-19 i'w drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn yr wythnos sy'n dechrau 27 Ebrill 2020.

**128 Craffu Cyn Penderfynu: Rheol 19.1c y Weithdrefn Ariannol ac FPR7 - Awdurdodiad i newid ac addasu Stiwdios y Bae, Fabian Way, Abertawe yn Ysbyty Cynnydd Sydyn â 1000 o Welyau ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.**

Roedd yr Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Prif Swyddog Cyllid yn bresennol wrth i'r pwyllgor ystyried adroddiad y Cabinet ar "Reol 19.1c y Weithdrefn Ariannol a Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Awdurdodiad i Newid ac Addasu Stiwdios y Bae, Fabian Way, Abertawe yn Ysbyty Cynnydd Sydyn â 1000 o Welyau ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe."

Dechreuodd y Prif Weithredwr drwy ddatgan bod y cyfnod hwn yn ddiddorol ac yn heriol i bob un ohonom, gan dalu teyrnged i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a'i dîm am yr holl waith a wnaed mewn cyfnod byr i baratoi a datblygu'r ysbyty cynnydd sydyn hwn mewn ymateb i bandemig Covid-19.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Lleoedd benawdau'r adroddiad, gan gynnwys y broses nodi safle, gan roi sylw penodol i bwyntiau 2.1, 2.7 a 2.8 yr adroddiad.

Yn ychwanegol, diolchodd yr Arweinydd i'r holl dimau a oedd wedi gweithio oriau hir iawn dros y tair wythnos ddiwethaf i ddatblygu'r ysbyty cynnydd i'w gam presennol,

gydag oddeutu 400 o welyau wedi'u cwblhau'n barod.  Rhannwyd lluniau o'r prosiect â'r pwyllgor ac roedd arweinwyr grŵp wedi ymweld â'r safle y bore hwnnw. Aeth ymlaen i ddweud bod "ymdrech adeg y rhyfel" wedi cael ei ddyblygu, a nododd y dylai pob un ohonom fod yn falch o'r holl staff a chontractwyr a oedd yn rhan o'r gwaith.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Talodd yr holl arweinwyr grŵp a oedd wedi bod ar ymweliadau safle deyrnged i'r ymdrech enfawr a wnaed gan bawb a oedd yn rhan o'r gwaith, yn ogystal â chyflymder ac ansawdd y gwaith i ddatblygu'r cynllun hyd yn hyn;
- Cydnabuwyd y cafwyd rhai problemau bach gyda thraffig i'r safle'n achosi aflonyddwch i breswylwyr lleol, fodd bynnag roedd arwyddion ychwanegol wedi'u rhoi ar waith er mwyn i lorïau a cherbydau trwm eraill ddilyn y llwybrau dynodedig i'r safle ac i ffwrdd ohono er mwyn datrys y sefyllfa;
- Cafwyd pryderon ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Llywodraeth Cymru'n ad-dalu costau i'r cyngor, a cheisiodd y pwyllgor sicrhad ynghylch y defnydd o arian cyhoeddus;
- Beth fyddai'r sefyllfa pe bai'r pandemig yn parhau'n hirach na'r cyfnod prydlesu 12 mis;
- Dylid cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ynghylch defnydd y safle yn y dyfodol ar ddiwedd y pandemig, er mwyn cefnogi unrhyw weithrediadau a ganslwyd ac i helpu gydag unrhyw waith sydd heb ei wneud yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe;
- A oedd digon o staff, gan gynnwys meddygon, meddygon ymgynghorol ac arbenigwyr ar gael i gefnogi'r ysbyty cynnydd.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet a'r swyddogion am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno'r adroddiad. Diolchoddhefyd i bawb dan sylw am eu gwaith caled ar ran Pwyllgor y Rhaglen Graffu.

Penderfynwyd y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet yn amlinellu barn y Pwyllgor, a chaiff adborth ei gyflwyno i'r Cabinet ar 27 Ebrill 2020 cyn iddo benderfynu ar adroddiad y Cabinet.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.56 pm

**Cadeirydd**